Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Grŵp Cynghori Technegol TB Gwartheg Cymru: 9 Hydref 2024

Cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar on 9 Hydref 2024 ym Mhrifysgol Aberystwyth.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Ionawr 2025

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Ionawr 2025

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Presenoldeb** (https://www.llyw.cymru#162235)

**Siaradwyr gwadd/arsylwyr:** (https://www.llyw.cymru#162237)

**1. Croeso gan y Cadeirydd a chadw tŷ** (https://www.llyw.cymru#162239)

**2. Diweddariad Llywodraeth Cymru ac APHA ar rannu data profion croen** (https://www.llyw.cymru#162241)

**3. Cyflwyniad epidemioleg APHA** (https://www.llyw.cymru#162243)

**4. Cynnig ar gyfer creu dosbarthiad o achosion TB** (https://www.llyw.cymru#162245)

**5. Rôl diwydiant wrth ddileu TB** (https://www.llyw.cymru#162247)

**6. Cyflwyniad i adolygiad o bolisi Adweithydd Amhendant** (https://www.llyw.cymru#162249)

**7. Tystiolaeth gan Iechyd da a Mentera** (https://www.llyw.cymru#162251)

**8. Tystiolaeth gan Undeb Amaethwyr Cymru (UAC) a Sesiwn Holi ac Ateb** (https://www.llyw.cymru#162253)

**9. Holi ac Ateb gydag Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru** (https://www.llyw.cymru#162255)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## 10. Holi ac Ateb APHA (https://www.llyw.cymru#162257)

## 11. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a sesiwn holi ac ateb (https://www.llyw.cymru#162259)

## 12. Trafod polisïau adweithyddion amhendant yng Nghymru (https://www.llyw.cymru#162261)

## 13. Unrhyw faterion eraill (https://www.llyw.cymru#162263)

## 14. Sylwadau cloi (https://www.llyw.cymru#162265)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Presenoldeb

Glyn Hewinson, cadeirydd
Dai Grove-White, aelod
Gareth Edwards, aelod
Gareth Enticott, aelod
Gwenllian Rees, aelod
Ifan Lloyd, aelod
Keith Cutler, aelod
Robert Smith, aelod
Sarah Tomlinson, aelod
Sarah Woollatt, aelod
Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru
Ysgrifenyddiaeth
Cofnodwr

# Siaradwyr gwadd/arsylwyr:

Cynrychiolwyr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)
Cynrychiolwyr Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
Cynrychiolydd Undeb Amaethwyr Cymru
Cynrychiolydd Iechyd da
Cynrychiolydd Mentera
Swyddogion Llywodraeth Cymru

# 1. Croeso gan y Cadeirydd a chadw tŷ

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd iddynt am roi o'u

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

hamser, eu harbenigedd a'u gwaith amserol a gwerthfawr ers y cyfarfod diwethaf.

Cyfleodd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan gynrychiolydd APHA a Phrif Swyddog Milfeddygol Cymru am beidio â gallu bod yn bresennol yn bersonol.

Rhoddodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf i'r grŵp ar:

- syflwyno'r gofod gwaith a rennir
- sefydlu Bwrdd y Rhaglen TB. Bydd cyfarfod nesaf y Grwp Cynghori Technegol ar 23 Ionawr yn gyfarfod ar y cyd â Bwrdd y Rhaglen TB a bydd yn adolygu'r targedau 6 mlynedd i ddileu TB Buchol
- gwrthdaro buddiannau. Ni ddatganwyd unrhyw rai ychwanegol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y cytunwyd ar gofnodion y cyfarfodydd blaenorol.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar gamau gweithredu o’r cyfarfod blaenorol.

Cadarnhawyd cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:

- Dydd Iau 23 Ionawr 2025
- Dydd Iau 10 Ebrill 2025
- Dydd Iau 10 Gorffennaf 2025
- Dydd Iau 16 Hydref 2025

## 2. Diweddariad Llywodraeth Cymru ac APHA ar rannu data profion croen

Cyflwynwyd diweddariad ar rannu data profion croen TB i TAG ar ran

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Llywodraeth Cymru gan Filfeddyg ac Ystadegydd Llywodraeth Cymru a oedd yn mynd i'r afael â:

- beth y gellid ei ddarparu i geidwaid nawr a'r risgiau
- beth y gellid ei ddarparu i sefydliadau rhanddeiliaid nawr a'r risgiau
- beth y gellid ei ddarparu o dan fesurau llywodraethu a diogelu data priodol
- beth y gellid ei ddarparu yn y dyfodol

Cafodd yr aelodau gyfle i gael sesiwn holi ac ateb ar ôl y cyflwyniad.

Diolchodd y Cadeirydd am y cyflwyniad clir a gwerthfawr, ac ymgysylltiad y Grwp Cynghori Technegol â phwnc cymhleth.

## 3. Cyflwyniad epidemioleg APHA

Cyflwynodd cynrychiolwyr o APHA eu hunain a chyflwynodd gyflwyniad ar gefnogaeth epidemiolegol bosibl y gallent ei darparu i'r Grŵp a oedd yn cynnwys:

- dulliau ôl-weithredol sy'n defnyddio data a llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes
- dulliau blaengar gan gynnwys modelu TB buchol ac effaith ymyriadau rheoli.
- dylunio hapdreialon rheoledig
- offer ar gyfer rheoli achosion sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- offer sy'n dod i'r amlwg a defnydd newydd o offer presennol
- epidemioleg moleciwlaidd

Diolchodd y Cadeirydd i APHA am fod yn bresennol ac am gyflwyniad defnyddiol a chraff.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# 4. Cynnig ar gyfer creu dosbarthiad o achosion TB

Cyflwynodd aelod o’r Grŵp gynnig i greu system ddosbarthu ar gyfer achosion TB ar lefel unigol a buches fel ffordd o gyfleu risg clefydau yn well i ffermwyr a milfeddygon.

Trafododd yr aelodau y cysyniad a chytunwyd y dylid bwrw ymlaen â hyn drwy weithdy gyda rhanddeiliaid i gyd-greu system ddosbarthu addas.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am gyfrannu at y drafodaeth a'r aelod am ddod â'r cynnig i'r grŵp.

# 5. Rôl diwydiant wrth ddileu TB

Cyflwynodd aelod o’r Grŵp gynnig i archwilio pa rôl bellach y gallai diwydiant a llywodraeth ei chwarae wrth ddileu TB.

- cynnal gweithdy gyda rhanddeiliaid i rannu syniadau

Trafododd yr Aelodau y cysyniad a chytunwyd mai'r cam nesaf ddylai fod yw cynnal gweithdy gyda rhanddeiliaid i archwilio'r mater ymhellach a dywedodd na ddylai'r llywodraeth arwain hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am drafodaethau cynhyrchiol ac i'r aelod am ddod â'r cynnig i'r grŵp.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## 6. Cyflwyniad i adolygiad o bolisi Adweithydd Amhendant

Cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru a Phrif Swyddog Milfeddygol Cymru y pwnc a rhoi cefndir i bolisïau cyfredol.

## 7. Tystiolaeth gan Iechyd da a Mentera

Roedd cynrychiolwyr o Iechyd da a Mentera yn bresennol i gyflwyno eu safbwyntiau ar bolisïau Adweithydd Amhendant ac ateb cwestiynau gan aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i Iechyd da a Mentera am eu cyfraniadau i'r drafodaeth a phwysleisiodd bwysigrwydd cyfraniadau milfeddygol i ystyriaethau'r Grŵp Cynghori Technegol.

## 8. Tystiolaeth gan Undeb Amaethwyr Cymru (UAC) a Sesiwn Holi ac Ateb

Trafododd cynrychiolydd o Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) y papur yr oeddent wedi'i gyflwyno i'r Grŵp ar bolisi adweithyddion amhendant ac atebodd gwestiynau gan aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i UAC am eu cyfraniad gwerthfawr ac am fod yn bresennol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## 9. Holi ac Ateb gydag Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

Bu cynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) yn trafod y papur yr oeddent wedi'i gyflwyno i'r Grŵp ar bolisi adweithyddion amhendant gan ateb cwestiynau aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i NFU Cymru am eu cyfraniad gwerthfawr ac am fod yn bresennol.

## 10. Holi ac Ateb APHA

Cyflwynodd cynrychiolydd o APHA gymhlethdodau, goblygiadau, risgiau a chyflawnadwyedd newidiadau i bolisi.

Cododd aelodau'r Grŵp gwestiynau a thrafod materion a nodwyd mewn papur a gynhyrchwyd gan APHA ar oblygiadau newidiadau i bolisi'r AA yng Nghymru, gan gynnwys gwahaniaethau mewn polisi rhwng Cymru a Lloegr.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolydd APHA am y cyflwyniad llawn gwybodaeth.

## 11. Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru a sesiwn holi ac ateb

Rhoddodd Brif Swyddog Milfeddygol Cymru gyflwyniad, gan ailadrodd annibyniaeth y grŵp a'r angen i gydbwyso'r risg.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Cyflwynodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyflwyniad ar adweithyddion amhendant gan gynnwys tystiolaeth o risg o AA safonol, AA safonol wedi’u datrys, AA llym ac AA llym wedi’u datrys wedi'u darllen o dan amodau llym wrth brofi'n bositif yn ddiweddarach o'i gymharu ag anifeiliaid sy'n profi yn glir.

Cafodd yr aelodau sesiwn holi ac ateb ar ôl y cyflwyniad.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr LIC am bapur defnyddiol iawn a oedd yn amlinellu'n glir y risg uwch sy'n gysylltiedig ag AA safonol a llym.

## 12. Trafod polisïau adweithyddion amhendant yng Nghymru

Trafododd yr Aelodau dystiolaeth a glywyd ac ystyriwyd opsiynau posibl wrth ystyried:

- amserlenni
- cyfathrebu
- ymarferoldeb cyflawni'r cynllun
- risg a lliniaru risg
- canlyniadau anfwriadol
- tystiolaeth o effaith (gymdeithasol a gwyddonol)

Cytunodd yr Aelodau i lunio papur cynghori ar Bolisi Adweithyddion Amhendant yng Nghymru ar gyfer cyfarfod cyntaf Bwrdd Rhaglen TB.

## 13. Unrhyw faterion eraill

Nid oedd unrhyw faterion eraill.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# 14. Sylwadau cloi

Bydd y cyngor ar yr Adweithydd Amhendant yn cael ei anfon at fwrdd y Rhaglen iddynt ei ystyried yn eu cyfarfod cyntaf ar 3 Rhagfyr 2024.

Diolchodd y Cadeirydd a Phrif Swyddog Milfeddygol Cymru i'r aelodau a'r siaradwyr a daeth y cyfarfod i ben.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 23 Ionawr 2025

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grwp-cynghori-technegol-tb-gwartheg-cymru-9-hydref-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).